## Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 21 Mehefin i'w hateb ar 05 Gorffennaf 2005

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Prif Weinidog*

**1. Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Beth mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i ddarparu cyfleoedd economaidd i bobl ifanc mewn ardaloedd gwledig. OAQ0669(FM)

**2. Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog i gau'r bwlch rhwng ariannu Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru a sefydliadau tebyg yn Lloegr. OAQ0674(FM)

**3. Kirsty Williams (Brycheiniog a Maesyfed):** Beth mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i helpu busnesau bach i ffynnu. OAQ0670(FM)

**4. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ddatblygu economaidd yn Ne Ddwyrain Cymru. OAQ0676(FM)

**5. Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa faterion ynghylch y gyllideb Ewropeaidd y mae'r Prif Weinidog yn bwriadu eu trafod yn ei gyfarfod nesaf gyda Gweinidogion Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol. OAQ0661(FM) **W**

**6. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar wasanaethau'r GIG yn Abertawe. OAQ0664(FM) **W**

**7. Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi eu cael gyda Gweinidogion y Llywodraeth ynghylch drylliau ffug. OAQ0680(FM)

**8. Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi eu cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch y cynigion am refferendwm ar Bwerau'r Cynulliad a geir yn y Papur Gwyn. OAQ0658(FM)

**9. Alun Ffred Jones (Caernarfon):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi eu cael gyda Gweinidogion Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol ynghylch swyddi a gaiff eu colli yn swyddfeydd y llywodraeth yn ardal Porthmadog. OAQ0660(FM) **W**

**10. Peter Black (De Orllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar deithio am

hanner pris ar fysiau i bobl ifanc 16 i 18 oed sy’n parhau i fod mewn addysg. OAQ0673(FM)

**11. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi’r wybodaeth ddiweddaraf inni ar gynlluniau ei lywodraeth ar gyfer ariannu Addysg Uwch. OAQ0678(FM)

**12. David Melding (Canol De Cymru):** A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu ystyried y defnydd o ganolfannau triniaeth preifat i ddarparu rhai o wasanaethau’r GIG. OAQ0681(FM)

**13. Owen John Thomas (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y modd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hyrwyddo dathlu ein treftadaeth ddiwylliannol. OAQ0671(FM)

**14. Gwenda Thomas (Castell-nedd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar waith Urdd Gobaith Cymru a’r prosiect a lansiwyd ganddynt gyda’r nod o sefydlu menter drawsffiniol gyda sefydliadau ieuenctid yn Iwerddon a Chymru. OAQ0668(FM)

**15. Jeff Cuthbert (Caerffili):** Pa drafodaethau y mae’r Prif Weinidog wedi eu cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch cyfraniad y Cynulliad i Uwchgynhadledd G8. OAQ0682(FM)